**PWYLLGOR SAFONAU 14-4-08**

**Yn bresennol:** Mr J.P. Pollard (Cadeirydd);

**Aelodau Etholedig:** Y Cynghorwyr Wyn Myles Meredith a Glyn Owen.
.
**Aelodau Annibynnol:** Gwilym Ellis Evans a Mr Malcolm Jones

**Aelod Pwyllgor Cymunedol:** Dr R. T. Ellis.

**Hefyd yn bresennol:** Dilys Phillips (Swyddog Monitro), Gareth W. Jones, (Dirprwy Swyddog Monitro), Siôn Huws (Swyddog Priodoldeb) ac Ioan Hughes, (Swyddog Pwyllgor)

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Morgan Vaughan a Mr Sam Soysa.

**1. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor a gynhaliwyd ar 23 Hydref 2007 fel rhai cywir.

**MATERION YN CODI**

Cyfeiriwyd at benderfyniad a wnaed i dynnu sylw Cyngor Gwynedd at anfodlonrwydd y Pwyllgor Safonau gan na chyfeiriwyd at allu ymgeiswyr i siarad Cymraeg na'u parodrwydd i ddysgu'r iaith pan hysbysebwyd swydd yr Ombwdsmon.

Mewn ymateb i'r ymholiad, adroddodd y Swyddog Monitro fod y mater wedi ei drosglwyddo i Is- bwyllgor Iaith y Cyngor. Gallasai'r dyddiad cau ar gyfer ymgeiswyr fod wedi cyrraedd cyn cwblhau'r broses yma.

Bellach penodwyd Ombwdsmon newydd a chredir nad yw'n siaradwr Cymraeg.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth.**

**CYNHADLEDD**

Adroddodd y Swyddog Monitro y caiff Cynhadledd y Pwyllgor Safonau ei chynnal yn Aberystwyth ar 12 Medi 2008.

Er nad oes manylion ar gael ar hyn o bryd eglurodd y Swyddog y dylai aelodau sydd am weld unrhyw fater arbennig yn cael ei gynnwys ar raglen y Gynhadledd, roi gwybod iddi cyn diwedd mis Gorffennaf.

Cyfeiriwyd at y drefn sy'n debygol o gael ei dilyn yn y Gynhadledd, a bydd hyn yn cynnwys anerchiad gan yr Ombwdsmon a benodwyd yn ddiweddar a chyfle i roi sylw i'r Cod Ymddygiad newydd.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth.**

**3. COD YMDDYGIAD ENGHREIFFTIOL NEWYDD I AELODAU**

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Monitro a nodwyd y camau a gymerwyd i sefydlu Cod Ymddygiad newydd i aelodau..

Wrth gyflwyno'r Cod presennol yn 2001, ymrwymodd y Cynulliad Cenedlaethol i'w adolygu yng ngoleuni profiad Llywodraeth Leol o'i weithredu. O ganlyniad sefydlwyd gweithgor aml-asiantaeth yn 2004 i ymgymryd â'r adolygiad ac i baratoi Cod newydd.

Yn sgil hyn bu cyfnodau o ymgynghori gydag aelodau'r pwyllgor yma'n ystyried drafft ym mis Gorffennaf 2005 ac ym mis Hydref 2007.

Bydd y Cod newydd yn dod i rym ar 18 Ebrill 2008, ac fel pob cyngor tref a chymuned arall, bydd gan Gyngor Gwynedd chwe mis i'w fabwysiadu. Bwriedir ei gyflwyno i gyfarfod cyntaf y Cyngor newydd ar 22 Mai 2008.

Pwysleisiwyd fod yn rhaid i bob cyngor fabwysiadu holl ddarpariaethau'r Cod. Gellir ychwanegu darpariaeth yn lleol, sy'n mynd tu hwnt i holl ddarpariaethau'r Cod, ond ni ellir eithrio unrhyw ddarpariaeth orfodol.

Eglurwyd ymhellach y cynhelir 4 sesiwn hyfforddiant ar gyfer holl aelodau Cyngor Gwynedd rhwng dechrau Mai a chyfarfod cyntaf y Cyngor newydd ar 22 Mai. Bwriedir cyflwyno gwybodaeth i aelodau holl Gynghorau Cymuned Gwynedd, yn ystod Mehefin a Gorffennaf.

Cyflwynwyd gwybodaeth i aelodau'r Pwyllgor Safonau am gynnwys ac effeithiau'r Cod Ymddygiad newydd gyda'r Dirprwy Swyddog Monitro'n agor y cyflwyniad trwy ymdrin â Rhan 1 (Dehongli) a Rhan 2, (Darpariaeth Cyffredinol). Rhoddodd y Swyddog Monitro'n sylw arbennig i Ran 3, (Buddiannau) a Rhan 4 (Cofrestr Buddiannau Aelodau).

Cyflwynwyd esboniad o ddyletswyddau aelodau a'r rheolau sydd angen eu dilyn, a rhoddwyd cyfle i aelodau'r Pwyllgor fynegi barn a gofyn cwestiynau.

Nododd y Swyddog Monitro fod y prif newidiadau i'w gweld yn y drefn a'r cod i'w ddilyn wrth ddatgan buddiant personol. Tynnodd sylw at y gwahanol amgylchiadau a allasai godi pan mae angen i aelod ddatgan buddiant personol.

Cyfeiriwyd yn arbennig at yr angen i gofrestru rhoddion a lletygarwch a pha swm a ddylid ei bennu ar gyfer gwneud hyn. Awgrymodd y Swyddog Monitro y byddai £25, fel y mae ar hyn o bryd, yn rhesymol.

Ychwanegwyd y gellid cymryd camau pellach trwy nodi'r angen i aelod ddatgan pan mae'n gwrthod cynnig o rodd a lletygarwch.

Cytunwyd y bydd ysgolion y sir yn fater fydd yn cael sylw buan gan y Cyngor newydd, ac ystyriwyd y drefn i'w dilyn pan mae aelod o'r Cyngor hefyd yn gwasanaethu ar fwrdd llywodraethol ysgol neu pan fydd ganddo gysylltiadau neilltuol eraill gyda'r ysgol.

Awgrymwyd bod y newidiadau'n golygu lleihad yng ngwaith y Pwyllgor Safonau. Mewn ymateb, dywedodd y Swyddog Monitro y byddai modd annog mwy i fanteisio ar swyddogaeth y Pwyllgor trwy ofyn am ollyngdod, mewn da bryd, er mwyn cael yr hawl i fod yn rhan o drafodaethau ar faterion neilltuol.

O safbwynt hyfforddiant ar y Cod newydd, 'roedd yr aelodau'n awyddus i dderbyn

gwybodaeth bellach eu hunain ac awgrymwyd y gallasai Cynghorau Cymuned hefyd fod yn rhan o sesiynau hyfforddi Cyngor Gwynedd pe bai modd.

**PENDERFYNWYD**

i) **argymell i'r Cyngor fabwysiadu'r Cod Enghreifftiol**
ii) **argymell i'r Cyngor bennu £25 fel gwerth ar gyfer paragraff 17 o'r cod (cofrestru rhoddion a lletygarwch)**
iii) **argymell i'r Cyngor y dylid ychwanegu darpariaeth i'r Cod yn nodi'r angen i'r aelodau roi gwybodaeth pan fyddant yn gwrthod cynnig o rodd a lletygarwch**
iv) **argymell i'r Cyngor y dylid cynnwys egwyddorion 'Nolan' fel rhagarweiniad i'r Cod**
v) **cefnogi'r drefn o gynnal 4 sesiwn hyfforddiant ar gyfer holl aelodau Cyngor Gwynedd rhwng dechrau'r mis a'r cyfarfod cyntaf o'r Cyngor newydd ar 22 Mai.**
vi) **bod aelodau'r Pwyllgor Safonau yn derbyn rhestr o ddyddiadau'r sesiynau hyfforddi fel y gallant, os ydynt yn dymuno, fod yn bresennol i sylwi ar yr ymateb**
vii) **bod clerc pob Cyngor Cymuned yng Ngwynedd yn cael gwahoddiad i fynychu sesiynau hyfforddi Cyngor Gwynedd fel rhagarweiniad i hyfforddiant gaiff ei gyflwyno i'r Cynghorau Cymuned**

## 4. AELODAETH Y PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynwyd adroddiad gan y Swyddog Priodoldeb ar y newidiadau a ddylid eu hystyried mewn cysylltiad ag aelodaeth y Pwyllgor Safonau gan fod tymor swydd rhai aelodau'n dirwyn i ben.

Rhoddwyd gwybodaeth am y rhai sydd wedi cwblhau dau dymor yn ogystal ag aelodau sydd a'u tymhorau cyntaf yn dod i ben ym mis Mai.

Nodwyd y bydd yr Aelod Pwyllgor Cymunedol, Dr Tudor Ellis, yn gorffen ei ail dymor gyda'r etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai. Yn ôl y rheoliadau, ni all Aelod Pwyllgor Cymunedol wasanaethu am fwy na dau dymor, ac felly bydd yn angenrheidiol penodi aelod newydd.
Yn ogystal, mae'r rheoliadau'n nodi y dylai'r Cyngor, cyn ail-benodi, ymgynghori â'r cynghorau cymuned a thref o fewn ei ardal ac unrhyw gymdeithas cynghorau cymuned sy'n gweithredu o fewn yr ardal.

Gellir penodi'r aelodau annibynnol sydd wedi cwblhau un tymor swydd am un cyfnod arall dilynol, ond ni fyddai'n rhaid i'r Cyngor ddilyn y broses statudol o benodi aelodau annibynnol newydd wrth wneud hynny.

O safbwynt aelodau etholedig, eglurwyd y bydd angen penodi aelodau newydd. Nodwyd y byddai modd ail-benodi'r Cynghorwyr Glyn Owen a Morgan Vaughan, yn ddarostyngedig i ganlyniadau'r etholiadau Llywodraeth Leol. Mae'r Cynghorydd Wyn Myles Meredith wedi cwblhau dau dymor, ac mae hefyd wedi penderfynu peidio ail sefyll yn yr etholiadau. Oherwydd hyn ni ellir ei ail -benodi.

Diolchwyd i Dr Tudor Ellis a'r Cynghorydd Wyn Myles Meredith am eu gwasanaeth, a diolchodd y ddau am gydweithrediad a chymorth y swyddogion ac i Mr Pollard am gadeiryddiaeth ddoeth.

Nodwyd mai Cyngor Gwynedd fydd yn gyfrifol am y penodiadau, a chaiff adroddiad ei chyflwyno mewn cyfarfod o'r Cyngor llawn ar 22 Mai. Cytunwyd y byddai aelodau'r

Pwyllgor Safonau'n cynnal cyfweliadau rhagarweiniol, pe byddai mwy nag un enwebiad yn cael ei dderbyn mewn cysylltiad ag aelod Pwyllgor Cymunedol.

**PENDERFYNWYD**

**i) derbyn y wybodaeth ynglŷn â'r aelodaeth**

**ii) Argymell i'r Cyngor y dylid penodi aelodau gyda phrofiad o wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau**

**iii) bod camau priodol yn cael eu cymryd i benodi Aelod Pwyllgor Cymunedol i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30am a daeth i ben am 11:50am